

**2018 Rhif (Cy.)**

**2018 No. (W.)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Traffordd yr M4  
(Cyffordd 23a (Magwyr), Sir  
Fynwy i Gyffordd 34 (Meisgyn),  
Rhondda Cynon Taf) a Thraffordd  
yr A48(M) (Cyffordd 29 (Cas-  
bach), Casnewydd i Gyffordd 29A  
(Llaneirwg), Caerdydd) (Gwahardd  
Cerbydau Dros Dro) 2018

The M4 Motorway (Junction 23a  
(Magor), Monmouthshire to  
Junction 34 (Miskin), Rhondda  
Cynon Taf) & The A48(M)  
Motorway (Junction 29 (Castleton),  
Newport to Junction 29A (St  
Mellons), Cardiff) (Temporary  
Prohibition of Vehicles) Order  
2018

*Gwnaed* 6 Chwefror 2018

*Made* 6 February 2018

*Yn dod i rym* 10 Chwefror 2018

*Coming into force* 10 February 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru a Thraffordd yr A48(M), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r traffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y traffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the relevant lengths of the M4 London to South Wales Motorway and the A48(M) Motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorways should be prohibited because of works proposed on or near the motorways.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy i Gyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf) a Thraffordd yr A48(M) (Cyffordd 29 (Cas-bach), Casnewydd i Gyffordd 29A (Llaneirwg), Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 10 Chwefror 2018.

1. The title of this Order is The M4 Motorway (Junction 23a (Magor), Monmouthshire to Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf) & The A48(M) Motorway (Junction 29 (Castleton), Newport to Junction 29A (St Mellons), Cardiff) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 10 February 2018.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:**

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 10 Chwefror 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y traffyrdd” (“*the motorways*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru a Thraffordd yr A48(M).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r traffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

6 Chwefror 2018

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darnau o gerbytyffyrdd tua’r gorllewin a thua’r dwyrain traffordd yr M4 rhwng Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy a Chyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys holl ffyrdd ymuno tua’r gorllewin a thua’r dwyrain yr M4 rhwng y cyffyrdd hyn..

Y darn o draffordd yr A48(M) rhwng Cyffordd 29 (Cas-bach), Casnewydd a Chyffordd 29A (Llaneirwg), Caerdydd.

**2.—(1) In this Order:**

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the motorways” (“*y traffyrdd*”) means the M4 London to South Wales Motorway and the A48(M) Motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 10 February 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the motorways specified in the Schedule.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

6 February 2018

*Nina Ley*

Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

**SCHEDULE**

The lengths of the westbound and eastbound carriageways of the M4 motorway between Junction 23a (Magor), Monmouthshire and Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf including all westbound and eastbound entry slip roads between these junctions.

The length of the A48(M) motorway between Junction 29 (Castleton), Newport and Junction 29A (St Mellons), Cardiff.

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4  
(CYFFORDD 23A (MAGWYR), SIR FYNWY I  
GYFFORDD 34 (MEISGYN), RHONDDA  
CYNON TAF) A THRAFFORDD YR A48(M)  
(CYFFORDD 29 (CAS-BACH), CASNEWYDD I  
GYFFORDD 29A (LLANEIRWG), CAERDYDD)  
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar Draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy a Chyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Thraffordd yr A48(M) rhwng Cyffordd 29 (Cas-bach), Casnewydd a Chyffordd 29A (Llaneirwg), Caerdydd, neu gerllaw iddynt.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar ddarnau penodol o'r M4/A48(M) o fewn y darnau cyffredinol a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn pan fo angen gwneud gwaith mewn safle penodol. Disgrifir y trefniadau ar gyfer y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Disgwylir daw'r gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, i rym ar 10 Chwefror 2018 a byddant yn gweithredu'n ysbeidiol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Pan fo'n ymarferol, arddangosir hysbysiad ymlaen llaw am y gwaharddiadau tuag un wythnos cyn bod angen angen cau darn penodol o'r traffyrdd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN  
Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill**

Y darnau o gerbyttyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain traffordd yr M4 rhwng Cyffordd 23a (Magwyr) a Chyffordd 34 (Meisgyn), gan gynnwys holl ffyrdd ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain yr M4 rhwng y cyffyrdd hyn.

**THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 23A  
(MAGOR), MONMOUTHSHIRE TO JUNCTION  
34 (MISKIN), RHONDDA CYNON TAF) & THE  
A48(M) MOTORWAY (JUNCTION 29  
(CASTLETON), NEWPORT TO JUNCTION 29A  
(ST MELLONS), CARDIFF) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway between Junction 23a (Magor), Monmouthshire and Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf and the A48(M) motorway between Junction 29 (Castleton), Newport and Junction 29A (St Mellons), Cardiff.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on certain lengths of the M4/A48(M) within the overall lengths described in the Schedule to this Notice when work is required at a particular site. The alternative route arrangements are also described in the Schedule.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force on 10 February 2018 and operate intermittently overnight (20:00 hours – 06:00 hours) for a maximum period of 18 months. Where practical, advance notice of the prohibitions will be displayed approximately one week before the closure of a specified length of the motorways.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

**SCHEDULE  
Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes**

The lengths of the westbound and eastbound carriageways of the M4 motorway between Junction 23a (Magor) and Junction 34 (Miskin) including all westbound and eastbound entry slip roads between these junctions.

Y darn o draffordd yr A48(M) rhwng Cyffordd 29 (Cas-bach) a Chyffordd 29A (Llaneirwg).

### **Trefniadau ar gyfer y llwybrau eraill**

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwriad ar gyfer y llwybrau eraill a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r M4 neu'r A48(M) ar gau dros dro i draffig.

Bydd y llwybrau eraill ar gael drwy fynd ar yr A4810, yr A48, y brif M4, y B4591, yr A467, yr A4232, yr A48(M), yr A470, yr A473, yr A4119, yr A4042 a'r A4051, fel y bo'n briodol.

The length of the A48(M) motorway between Junction 29 (Castleton) and Junction 29A (St Mellons).

### **Alternative route arrangements**

The alternative routes will be signed with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and when a particular length of the M4 or A48(M) is temporarily closed to traffic.

Alternative routes will be available via the A4810, A48, the main M4, B4591, A467, A4232, A48(M), A470, A473, A4119, A4042 and A4051, as appropriate.